# Llais Llanilar

Tymor y Nadolig Christmas Term 2023

Gwell gwneud ein gorau na bod yn orau

YSGOL LLANILAR




**Cofiwch ddilyn yr ysgol ar Facebook Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar ac ar Trydar @YsgolLlanilar**

**Remember to follow the school on Face-book Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar and Twitter @YsgolLlanilar**

## Nadolig yn Llanilar

Unwaith eto eleni fe gawsom wledd o Gyngerdd Nadolig. Cafodd pob plentyn y cyfle i berfformio ac roedd pawb wrth eu boddau yn actio, llefaru, canu a dawnsio. Thema ein cyngerdd oedd ein mwynhad ni fel plant o hwyl a sbri'r Nadolig ond ein bod hefyd yn cofio am blant ar draws y byd sydd ddim mor ffodus â ni.



## Christmas in Ysgol Llanilar

Once again this year we were treated to a fantastic Christmas Concert. Every child had the opportunity to perform and everyone loved acting, singing and dancing. The theme of our concert was our enjoyment as children of the fun and excitement of Christmas—but that we also remember children across the world who are not as lucky as us.

# Noson Gawl a Chrefft


*Dydd Iau'r 14eg o Ragfyr cafwyd noson Gawl a Chrefft arbennig yn yr ysgol. Blwyddyn 6 drefnodd y digwyddiad ac roedd yn llwyddiannus dros ben. Fe wnaethon nhw baratoi cawl (gyda bach o help gyda Helen a Becky yn y gegin!) a gwledd o gaws a chracers. Roedden nhw hefyd wedi bod yn brysur yn ysgrifennu llyfr o'u hoff ryseitiau. Mae'r elw am y cawl a'r llyfrau ryseitiau yn mynd tuag at dair elusen haeddiannol sydd yn agos at eu calonnau, sef elusen DPJ, Ysbyty Bronglais ac Ambiwlans Awyr Cymru.*

*Roedd pob plentyn wedi creu celf Nadoligaidd arbennig a gwerthwyd y rhain i gyd ar y noson.*

*Mae dal llyfrau ryseitiau ar gael, felly os hoffech chi gopi, cysylltwch gyda ni.*

*On Thursday the 14th of December there was a special Cawl a Chrefft evening at the school. Year 6 organised the event and it was extremely successful. They prepared cawl (with a little help from Helen and Becky in the kitchen!) and a feast of cheese and crackers. They had also been busy writing a book of their favourite recipes. The profits for the cawl and the recipe books go towards three deserving charities that are close to their hearts, DPJ charity, Ysbyty Bronglais and Welsh Air Ambulance.*




*Each child in the school has also created a special Christmas decoration and these were all sold on the night.*

*There are still recipe books available, so if you would like a copy, please contact us.*




Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth cymryd rhan yn sialens Llwybr Arfordir Cymru Tymor yma! Llwyddwyd i gyrraedd ein targed cerdded. Ond yn fwy na hyn llwyddwyd i gasglu dros £1500 ar gyfer y bws nofio. Oherwydd hyn ni fydd angen i ni godi tal am y bws nofio tymor nesaf. Diolch yn fawr iawn i chi gyd!


A big thank you to everyone who took part in the Wales Coastal Path challenge! We succeeded in reaching our walking target. But more than this we managed to collect over £1500 for the swimming bus! Because of this there will be no need to charge for the swimming bus next term! Thank you all very much!



# Dosbarth Gwenllian

Dyma ni wedi cyrraedd diwedd tymor yr Hydref yn barod! Rydyn ni yn nosbarth Gwenllian wedi bod yn brysur iawn yn ystod y 7 wythnos diwethaf. Rhwng paratoadau ar gyfer y Sioe Nadolig a chael popeth yn barod ar gyfer y noson gawl a chrefft, rydyn ni gyd yn barod am y gwyliau Nadolig!

Cafodd plant yr Adran Iau her o greu cynnyrch Nadoligaidd i werthu ar ddiwedd y tymor. Y peth cyntaf oedd angen gwneud oedd dewis pa gynnyrch i greu ac yna i greu pwyntpŵer neu boster i sôn am unrhyw gynhwysion, adnoddau, cyfarwyddiadau a chostau.








Dewiswyd 10 cynnyrch allan o 44! Y plant buddugol o ddosbarth Gwenllian oedd Skyler gyda'i 'gardd mewn cwpan', Tomos a'i 'addurn pren Nadolig', Olly a'i 'dynion eira gwlanog', Gruffudd a'i 'conau siocled poeth' ac Eva a'i 'bobl Nadolig'. Roedd yna 5 arall yn llwyddiannus yn ogystal o ddosbarth Llywelyn.

Ymchwil Marchnata oedd y peth nesaf oedd angen i ni wneud. Aethon ni i ddosbarth Llywelyn i ofyn cwestiynau fel pa gymeriadau i gynnwys, pa faint, pris ayyb.

**Dyma enghraifft o ymchwil marchanta grwp Olly o flwyddyn 3!**

Ymchwil Marchnata

| Faint byddwch chi'n talu am y cynnyrch yma? | | |
|---|---|---|
| £2.00 | £2.50 | £4.50 |
| 16 | 5 | 1 |

| Pa liw dyn eira ydych chi eisiau? | | |
|---|---|---|
| Coch | Oren | Gwyrdd |
| 1 | 0 | 20 |

| Maint | | |
|---|---|---|
| Bach | Canolig | Mawr |
| 4 | 1 | 16 |

| Pa liw het? | | |
|---|---|---|
| Glas | Melyn | Gwyrdd |
| 14 | 0 | 7 |


Mae dosbarth Gwenllian wedi bod yn mwynhau dysgu am arian yn ein gwersi mathemateg. Yn ystod eu gwersi Saesneg, mae'r plant wedi bod yn mwynhau gwrando ar stori'r Iron Man gan Ted Hughes. Os nad ydych chi wedi ei ddarllen rydyn yn awgrymu eich bod chi'n gofyn i Siôn Corn am gopi! Ond y peth mwyaf cyffrous yw ein taith i'r pwll nofio pob dydd Llun i ymarfer ein sgiliau nofio! Edrychwn ymlaen eto i'r tymor y Gwanwyn pan gawn ni fynd eto!



# Dosbarth Gwenllian

And here we are! We've reached the end of the Autumn term already! Dosbarth Gwenllian have been very busy during the last 7 weeks, between preparations for the Christmas show and the Craft and Cawl Ffair. We are all very ready for the Christmas holidays!

The Juniors had a challenge set to them to create a Christmas craft that they could sell. The first thing that they had to do was choose their product and create either a powerpoint or a poster informing us of cost, instructions and what was needed.








10 products were chosen out of 44 entries! The successful products from Dosbarth Gwenllian were those created by Skyler with her 'Garden in a Teacup', Tomos' 'Wooden tree ornament', Olly and his 'Woolly Snowmen', Gruffudd with his 'Hot Chocolate Cones' and Eva's 'Christmas Baubles'. There were another 5 successful products from dosbarth Llywelyn.

Market research was the next step. We went to dosbarth Llywelyn to ask their opinion on cost, design and size.

**Here's an example of Olly's market research.**

Ymchwil Marchnata

| Faint byddwch chi'n talu am y cynnyrch yma? | | |
|---|---|---|
| £2.00 | £2.50 | £4.50 |
| 16 | 5 | 1 |

| Pa liw dyn eira ydych chi eisiau? | | |
|---|---|---|
| Coch | Oren | Gwyrdd |
| 1 | 0 | 20 |

| Maint | | |
|---|---|---|
| Bach | Canolig | Mawr |
| 4 | 1 | 16 |

| Pa liw het? | | |
|---|---|---|
| Glas | Melyn | Gwyrdd |
| 14 | 0 | 7 |

Dosbarth Gwenllian have been enjoying money work during our Mathematic lessons. During our English lessons, the children have been enjoying our class novel Iron Man by Ted Hughes. If you haven't read it yet, we encourage you to ask for a copy over Christmas. But the most exciting thing this term has been our swimming lessons on a Monday afternoon. We're looking forward to the spring term when we get to go again.



# Dosbarth Gelert



Nadolig / *Christmas*

Am hanner tymor cyffrous! Rydym wedi bod yn edrych ymlaen at y Nadolig yn fawr iawn! Roedd perfformiadau'r Sioe Nadolig yn arbennig. Da iawn chi gyd!

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y Noson Gawl a Chrefft. Diolch yn fawr i Mr Aled Rumble a Harri am greu dynion eira allan o bren.

Mae'r plant wedi dewis sut i addurno eu dynion eira ac felly mae pob un yn unigryw! Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r noson. Roedd yn llwyddiannus iawn!

*What an exciting half term! We have been looking forward to Christmas very much! The Christmas Show performances were special. Well done to you all!*

*We have also been preparing for the Cawl and Craft evening. Many thanks to Mr Aled Rumble and Harri for creating snowmen out of wood. The children have chosen how to decorate their snowmen and therefore each one is unique! Thanks to everyone who supported the night. It was very successful!*




Wythnos Gwrth Fwlio / *Anti bullying week*

Cawsom wythnos arbennig wrth i ni ddathlu wythnos gwrth fwlio ym mis Tachwedd. Buom yn gwisgo sanau od i ddangos ein bod i gyd yn wahanol ac yn meddwl am sut i fod yn ffrind da.

*We celebrated anti-bullying week back in November. We wore odd socks to show that we were all different and thought about how to be a good friend.*




Pablo y Fanana Masnach Deg / *Pablo the Fairtrade Banana*

Rydym wedi bod yn dysgu am daith Pablo y Fanana Masnach Deg, o Golombia i'r archfarchnad. Roedd Pablo wedi sicrhau fod y ffermwyr banana yn cael eu talu'n deg. Daeth Pablo i'r dosbarth i ddweud y stori wrth y plant. Cafodd groeso mawr!



We have been learning about the journey of Pablo the Fairtrade Banana, from Colombia to the supermarket. Pablo ensured that the banana farmers were paid fairly. Pablo came to class to tell the story to the children. He had a warm welcome!

# Dosbarth Llywelyn

Enw ein thema hanner tymor yma yw Ffau'r Dreigiau. Yn ystod y thema cafodd y plant gyfle i gyflwyno cynnyrch i werthu yn y Noson Gawl a Chrefft. Dewiswyd 5 cynnyrch ac i ffwrdd â'r plant i greu cwmni busnes ei hun. Roedd yn rhaid iddyn nhw werthuso'r cynnyrch a chreu holiadur i blant yr ysgol fel ymchwiliad i'r farchnad. Wedi gwneud hyn ail gynlluniwyd y cynnyrch cyn mynd ati i drefnu costau ac i greu'r cynnyrch arbennig. Gwnaeth y plant hysbysebion effeithiol a phosteri arbennig i'r noson fawr gan ddefnyddio Adobe. Gweithiodd y plant yn arbennig o dda fel tîm ar gyfer y noson fawr. Llwyddwyd i werthu POPETH! Mae gyda ni dipyn o waith i wneud yn yr wythnos olaf yma i gyfri'r elw! Diolch yn fawr am eich cefnogaeth fel rhieni-roedd yn noson arbennig!







Ceirw Pren hyfryd- Diolch enfawr i John am yr holl help!

Roedd y 'smores' yn ffefryn mawr yn y noson 'Gawl a Chrefft'!








Llwyddwyd i greu dros 80 o sachau bwyd ceirw ar gyfer y noson!

Roedd pawb wedi dwli ar yr addurniadau dynion eira!



Plant yn cynnal ymchwiliad i'r farchnad!

Llwyddodd bob plentyn i ddylunio coeden Nadolig arbennig! Diolch i Andy am y pren ac Yogi am helpu torri'r pren!



# Dosbarth Llywelyn

Our theme this half term is called Dragons' Den. Within the theme there was an opportunity for the children to present products to sell at the 'Cawl and craft' night. Five products were chosen and the children created their own business companies. They had to evaluate the product and create a questionnaire for the school children as a research into the market. Having done this the product was re-designed before they set out how much it would costs to make the product. The children made adverts and posters using Adobe. The children worked extremely well as a team to create their products ready for the big night. They managed to sell EVERYTHING! We have a lot of work to do in this last week to work out how much profit we've made! Thank you very much for your support as parents - it was a special night!







Lovely Wooden reindeer– Thank you John for all the help!

The 'smores' were a big favorite at the 'Cawl and Craft' night!








We managed to create over 80 reindeer food sacks for the night!

Everyone loved the snowmen



Children carrying out a market research.

Each child managed to design their own special Christmas tree! Thanks to Andy for the wood and Yogi for cutting the wood !



# Dosbarth Glyndŵr

Aeth disgyblion Glyndŵr ar ymweliad i'r Ffair Aeaf ar ddiwedd fis Tachwedd. Cafwyd diwrnod arbennig yn ymweld â stondinau amrywiol a mynychu seminar gydag Adam yn yr Ardd. Wrth gwrs, cafwyd cyfle i wneud bach o siopa a phrynu ychydig o 'trîts' cyn troi am adref!

*Glyndŵr class pupils went on a visit to the Winter Fair at the end of November. We had a fantastic day visiting various stalls, attending a seminar with Adam yn yr Ardd. Of course, we also did a bit of shopping and buying some treats before heading for home!*





Cafodd criw o ddisgyblion Glyndŵr y cyfle i fod yn fasgotiaid i Glwb Pêl droed Aberystwyth ar ddechrau mis Tachwedd. Roedd yn brofiad gwych iddyn nhw a llongyfarchiadau mawr i George am ennill y gystadleuaeth cymryd penalti- da iawn ti!


*Members of Year 6 were fortunate to have the opportunity to be mascots for Aberystwyth FC at the beginning of November. They had a fantastic afternoon, and congratulations to George for winning the penalty taking competition and winning an Aberystwyth FC football shirt.*


Yn ystod y tymor, mae Blwyddyn 6 wedi bod wrthi yn creu a chyhoeddi llyfr ryseitiau i godi arian ar gyfer tri elusen a ddewiswyd ganddyn nhw, sef, DPJ, Ambiwlans Awyr Cymru ac Ysbyty Bronglais. Maent wedi ymchwilio, dewis hoff rysait ac yna ysgrifennu ryseitiau a gwybodaeth yn ddwyieithog cyn mynd ati i werthu yn ystod y Noson Gawl a Chrefft.

*During the term, year 6 have been busy writing and publishing a recipe book to raise money for three charities that the pupils have chosen. The three charities are DPJ, Air Ambulance Wales and Bronglais Hospital. They have researched and written their recipes bilingually before selling them at the Cawl and Craft evening.*









Ar ddiwedd y tymor, cynhaliwyd Noson Gawl a Chrefft fel penllanw i waith y tymor. Cafwyd prynhawn arbennig o weini cawl a gwerthu llyfrau ryseitiau. Roedd hi'n braf i weld y neuadd yn llawn a phawb yn mwynhau. Diolch yn fawr i'r cwmnioedd isod am noddi ein llyfrau ryseitiau neu cyfranu at y noson.

*At the end of the term, we held a Cawl and Craft evening as a celebration of this term's work. It was fantastic to see the hall full and everyone enjoying. We would like to thank the following companies for sponsoring our recipe book and contributing to our evening.*

PWMPENNI PENDRE PUMPKINS

WYAU EDKINS EGGS

LLAETH TEULU JENKINS FAMILY MILK

Pilgrim's UK

Castell Howell

SOUTH CAERNARFON CREAMERIES

CAWS PEN HELYG

# Dosbarth Barti Ddu

Am hanner tymor prysur! O ddysgu am y corff a bwyta'n iach i greu crefftau Nadolig, mae dosbarth Barti Ddu wedi gweithio yn galed iawn yn ystod yr hanner tymor. Da iawn chi!

*What a busy half term we have had! From learning about healthy eating to christmas crafts and concerts, dosbarth Barti Ddu have worked extremely hard this half term. Well done all!*









Dyma ni yn creu bagiau gan ddefnyddio'r dechneg 'Hapa -Zome'.

*Here we are creating bags using the 'Hapa-Zome' technique.*




*Rydym hefyd wedi parhau gyda'n thema 'Beth sydd angen arnaf i gadw'n iach?' ac rydym wedi bod yn brysur yn dysgu am y gwahanol grwpiau o fwyd a chreu bocsys bwyd iachus.*

*We have also continued with our theme 'What do I need to stay healthy?' and we have been busy learning about the different food groups and creating healthy lunchboxes.*










Cawsom ddiwrnod cyffrous yn cyfweld â rhai ymgeiswyr ar gyfer y prosiect creadigol eleni. Rydym yn edrych ymlaen at gyd-weithio gyda Heledd Watkins eleni!

We had a very exciting day interviewing applicants for the creative project this year. We look forward to working with Heledd Watkins during this years creative project!



# Newyddion o'r Maes Chwaraeon

## *Sporting News*

Aeth criw o ddisgyblion i gynrychioli'r ysgol yn Nhwrnament Urdd Pêl rhwyd Cylch Aberystwyth. Cafwyd diwrnod grêt o gystadlu a phawb yn y tîm yn dysgu sgiliau newydd a chwarae'n wych fel tîm.

*Well done to the pupils who represented the school in the Urdd Netball tournament. We had a fantastic day competing with every member of the team developing new skills and playing fantastically as a team.*



Ar ddiwedd yr hanner tymor diwethaf, aeth criw o ddisgyblion i Dregaron i gystadlu yng nghystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd. Bu pawb yn dysgu sgiliau newydd a chwarae'n wych er gwaetha'r tywydd. Daeth y tîm Blwyddyn 3 a 4 yn drydydd yn ei grŵp a thîm merched Blwyddyn 5 a 6 yn ail yn ei grŵp ar ôl colli 1 gêm yn unig– arbennig!

*At the end of the half term, some pupils went to Tregaron to compete at the Urdd Tag rugby competition. Everyone developed new skills and they played fantastically. The Year 3 and 4 team came third in their group, and Year 5 and 6 finished second in their group after only losing one game– fantastic!*

# Diddanu Cymuned Llanilar

# Entertaining the local community






Troi'r golau Nadolig ymlaen yn Llanilar

*Switching on the Christmas lights in Llanilar*



Perfformio yn Ffair Nadolig y Llyfrgell Genedlaethol

*Performing in the National Library's Christmas Fair*



Ti a Fi Llanilar



Cysgod y Coed



# Lleisiau Ilar

YSGOL

LLANILAR

## Dewiniaid Digidol—Digital Wizards




Rydyn ni wedi rhoi pwyslais mawr ar ddiogelwch ar lein yn ystod yr hanner tymor yma. Fe wnaeth y Dewiniaid Digidol cyflwyno gwasanaeth arbennig i weddill yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth am seibr-fwlio.

We have put an emphasis on online safety during this half term. They delivered a great assembly to the rest of the school to raise awareness about cyberbullying.

## Pencampwyr ein Planed — Eco Warriors

Fe wnaeth pob plentyn yn yr ysgol blannu coeden er mwyn gwella bio-amrywiaeth yn ein cymuned ni. Plannon ni llwythi o goed gwahanol yn cynnwys criafol, ceirios gwyllt a chyll. Rydym yn edrych ymlaen i ofalu amdanynt a'u gweld yn tyfu dros y blynyddoedd i ddod.




Every child in the school planted trees in the school to help the community's bio-diversity. We planted different trees including rowan, wild cherry and hazel. We look forward to taking care of them and seeing them grow.

## Llysgenhadon Efydd— Bronze Ambassadors

Diolch yn fawr i CBW properties am noddi'r ysgol drwy brynu pyst pêl rhwyd newydd i'r ysgol. Bu'r Llysgenhadon Efydd yn brysur yn adeiladu'r pyst.

*Many thanks to CBW properties for sponsoring the school by purchasing new netball posts for the school. The Bronze ambassadors are pictured with the new posts.*



# Rhannu Negeseuon Pwysig

## Dydd y Cofio—Remembrance Day

Dyma ddisgyblion Glyndŵr yn gosod torch pabi ar gofeb rhyfel y pentref.

*Here are Glyndŵr pupils placing a poppy wreath on the War memorial at the church.*



## Gwasaenathau ysgol—School Assemblies

Mae plant yr ysgol yn cynnig enwau am bwy hoffen nhw ddysgu amdanynt— dyna yw sail ein gwasnaethau ni. Yn ystod yr hanner tymor yma rydym wedi dysgu am Mary Seacole, Marcus Rashford, Capten Tom Moore, David Attenborough a'r artist Gymreig Swci Delic. Bydden ni'n hapus i glywed eich syniadau chi hefyd.

*The school children offer names about who they would like to learn about - that is the basis of our services. During this half term we have learned about Mary Seacole, Marcus Rashford, Captain Tom Moore, David Attenborough and the Welsh artist Swci Delic. We would love to hear your ideas also so feel free to share them.*





## Llysgenhadon Gwych— Super Ambassadors

Trefnon ni wythnos Gwrth –fwlio gwych a llwyddiannus ar ôl sgwrio gyda phlant eraill o ysgolion Ceredigion. Yn ystod wythnos gwrth-fwlio dysgon ni bawb beth yw'r gwahaniaeth rhwng bwlio, a banter a jôc. Trefnon ni llawer o weithgareddau yn ystod yr wythnos, fel ffrindau cudd a chreu pypedau hosannau. Gwisgodd pawb sanau gwahanol a chynhalion ni a'r Cyngor Ysgol wasanaeth.

*We organised a successful Anti-bullying week after chatting with other children from Cerediogion schools. During anti-bullying week we all learned the difference between bullying, banter and joking. We also organised many activities such as hidden friends and created sock puppets. The School Council and us held an assembly.*




# Sharing Important messages

# Cymraeg gyda'r Cewri



Sut wyt ti?
https://www.youtube.com/watch?v=rm5uDzOUzNM&list=PLzsc_52SRKxt9lvplV68vs8144aK83Yev&index=59

Beth sydd ar y goeden Nadolig?
https://www.youtube.com/watch?v=U3WDMDNBYVo&list=PLzsc_52SRKxt9lvplV68vs8144aK83Yev&index=7



Llongyfarchiadau i bawb a gymrodd rhan yn Her Darllen yr Haf. Gwych bawb!

Congratulations to everyone that took part in the Summer Reading challenge.

## Gwrando ar ein disgyblion — Listening to our pupils

**Clybiau amser cinio — Lunchtime Clubs**

Gwyddbwyll—Yn wythnosol mae Lowri, Avril, Rosie a Luna yn trefnu Clwb Gwyddbwyll. Maent yn dysgu plant ar draws yr ysgol sut i chwarae gwyddbwyll. / A group of Year 5 girls teach children to play chess in their chess club.



Clwb Scratch—Mae Harri yn trefnu gweithgareddau codio a gemau gan ddefnydido rhaglen Scratch. / Harri organises a coding club.

Clwb Castell—Mae Tesni a Jenya yn trefnu clwb crefft a gemau. Y merched sydd wedi creu 'r gemau eu hunain. / Tesni and Jenya create craft activities for the Clwb Castell.

Nadolig Llawen

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yng nghymuned Ysgol Llanilar**